## Crist gyfodwyd! Haleliwia!

Crist gyfodwyd! Haleliwia!
Pechod Adda sydd mewn bedd,
O ddyfnderau du marwolaeth
cododd Crist ar newydd wedd.
Ymbil mae gerbron ein Duw.
Crist yr Arglwydd sydd yn fyw!

Crist gyfodwyd! Haleliwia!
Dygodd ni i'n cartref hir.
Brenin y brenhinoedd ydyw,
ein Crist byw a ddaeth yn wir.
Codi wnaeth dros ddynolryw.
Crist yr Arglwydd sydd yn fyw!

Crist gyfodwyd! Haleliwia!
Trechwyd hirlwm angau du.
Atgyfodwyd gwas dioddefaint,
Arglwydd bywyd, drosom ni.
Rhosyn hardd o'r gronyn byw;
Crist yr Arglwydd sydd yn fyw!

Crist gyfodwyd! Haleliwia!
Esgyn wnaeth i'w orsedd wen.
Ar ddeheulaw'r Tad mewn mawredd,
Ar deyrnasoedd byd yn ben.
Down yn rhydd o'n pechod briw,
Felly, canwn: 'Y mae'n fyw!'

*Cyf. o David Fox, Tymhorau Gogoniant*

(Awgrymir y dôn, Neander)